

Gwybodaeth i Gleifion

Cyfrifoldeb Rhiant

Gwasanaeth Ffisiotherapi

Mae'r wybodaeth hon ar gyfer rhieni plant sydd wedi'u hatgyfeirio at Wasanaeth Ffisiotherapi Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan.

Pan fydd plentyn yn cael ei asesu gan ffisiotherapydd, cynhelir trafodaeth gyda'r rhiant/rhieni a'r plentyn fel y bo'n briodol ynghylch pa ymyriad fydd ei angen. Bydd angen caniatâd ar gyfer yr ymyriad hwn naill ai gan y plentyn neu'r person sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn. Heb y caniatâd hwn, ni ellir cael ymyriad ffisiotherapi.

Yn ystod cwrs ymyrryd efallai bydd angen newid y math o driniaeth, bydd angen caniatâd pellach ar gyfer hyn.

Pryd yr ystyrir bod plentyn yn gymwys i gydsynio?

Gall plant cymwys benderfynu ar sawl agwedd ar eu gofal drostynt eu hunain, os ydynt yn deall goblygiadau eu triniaeth.

Gall pobl ifanc rhwng 16 a 18 oed roi caniatâd i gael triniaeth eu hunain.

Gall plant o dan 16 oed, sy'n deall yn llawn yr ymyriad sy'n cael ei gynnig, roi caniatâd hefyd. Rhaid i'r plentyn fod yn ddigon aeddfed i ddeall yn llawn natur y driniaeth sy'n cael ei chynnig, y risgiau, y manteision a'r dewisiadau amgen.

Beth yw cyfrifoldeb rhiant?

Mae cyfrifoldeb rhiant yn cyfeirio at yr hawliau, y dyletswyddau, y pwerau a'r cyfrifoldebau sydd gan y rhan fwyaf o rieni mewn perthynas â'u plant.

Heb gyfrifoldeb rhiant ni allwch fod yn rhan o'r penderfyniadau ynghylch gofal iechyd y plentyn.

Pwy sydd â chyfrifoldeb rhiant?

- Mamau – mae gan fam fiolegol (naturiol) gyfrifoldeb rhiant am ei phlentyn yn awtomatig.
- Tadau priod – bydd tad plentyn yn cael cyfrifoldeb rhiant os yw'n briod â'r fam pan gaiff y plentyn ei eni neu os yw ef a'r fam yn priodi'n ddiweddarach.
- Rhieni mabwysiadol – caffael cyfrifoldeb rhiant wrth fabwysiadu.

Pwy sydd heb gyfrifoldeb rhiant yn awtomatig?

- Llys-rieni – er y gallant gael cyfrifoldeb rhiant dros blant eu priod, drwy orchymyn preswyllo.
- Tadau di-briod – os nad yw tad plentyn yn briod â'r fam, nid oes ganddo gyfrifoldeb rhiant yn awtomatig. Bydd tad di-briod ond yn cael cyfrifoldeb rhiant os:
 - bydd yn priodi'r fam
 - ganwyd y plentyn ar ôl 1 Rhagfyr 2003 ac mae wedi'i enwi ar y dystysgrif geni
 - yw'r Llys yn gwneud gorchymyn sy'n rhoi cyfrifoldeb rhiant iddo
 - yw'r fam a'r tad yn gwneud cytundeb cyfrifoldeb rhiant
- Rhieni maeth – nid oes ganddynt gyfrifoldeb rhiant, y rhieni sy'n cadw hyn. Mae cyfrifoldeb rhiant yn cael ei rannu rhwng rhieni a'r awdurdod lleol pan wneir gorchymyn gofal. Pan wneir gorchymyn preswyllo, mae cyfrifoldeb rhiant yn cael ei rannu rhwng y rhieni a deiliad y gorchymyn preswyllo.

Dirprwyo cyfrifoldeb rhiant (loco parentis)

Gall unrhyw un sydd â chyfrifoldeb rhiant ddirprwyo, drwy gytundeb llafar neu ysgrifenedig, gyfrifoldeb rhiant i berson arall fel taid neu nain. Yna, gall y person dirprwyedig gydsynio i driniaeth ar gyfer y plentyn hwnnw neu ar gyfer unrhyw newidiadau i driniaeth.

Cyfrifoldeb y rhiant yw trafod gyda'r person dirprwyedig ganlyniad unrhyw ofal y mae'r plentyn wedi'i gael.

Cyfeiriadau

Y Gymdeithas Feddygol Brydeinig (2008). Canllawiau Cyfrifoldeb Rhiant gan y Gymdeithas Feddygol Brydeinig.

<https://www.bma.org.uk/advice/employment/ethics/children-and-young-people/parental-responsibility> [fel ar 25 Hydref 2017]

Cymdeithas Ffisiotherapyddion Siartredig Pediatrig (2016). Gweithio gyda Phlant - Canllawiau ar Arfer Da.

<https://apcp.csp.org.uk/publications/working-children-guidance-good-practice> [fel ar 25 Hydref 2017]

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan - Polisi Caniatâd

Adran Addysg (2016). Deall a Delio â Materion sy'n ymwneud â Chyfrifoldeb Rhiant.

<https://www.gov.uk/government/publications/dealing-with-issues-relating-to-parental-responsibility> [Fel ar 25 Hydref 2017]

Cyfraith Ymarferol Thomson Reuters (2017). Cyfrifoldeb Rhiant dros Addysg.

<https://uk.practicallaw.thomsonreuters.com> [fel ar 25 Hydref 2017]

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2013). Caniatâd mewn Gofal Iechyd - Gwybodaeth i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru.

<http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/document/273700/> [fel ar 25 Hydref 2017]

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English